

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 4 Chwefror 2019 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 1 – 2)

CLA(5)–05–19 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.1 SL(5)306 – Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

3 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

(Tudalennau 3 – 6)

CLA(5)–05–19 – Papur 2 – Adroddiadau clir ag eithrio pwynt rhinweddau

sengl o dan Reol Sefydlog 21.3 (wedi bod yn destun sifftio)

3.1 SL(5)307 – Rheoliadau Da Byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

3.2 SL(5)308 – Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019



3.3 SL(5)309 – Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

3.4 SL(5)311 – Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth(Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

4.1 SL(5)304 – Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019

(Tudalennau 7 – 46)

CLA(5)–05–19 – Papur 3 – Adroddiad

CLA(5)–05–19 – Papur 4 – Rheoliadau

CLA(5)–05–19 – Papur 5 – Memorandwm Esboniadol

4.2 SL(5)301 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2019

(Tudalennau 47 – 48)

CLA(5)–05–19 – Papur 30 – Ymateb y Llywodraeth

CLA(5)–05–19 – Papur 31 – Adroddiad

5 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

(Tudalen 49)

CLA(5)–04–19 – Papur 6 – Offerynnau statudol negyddol arfaethedig sydd ag adroddiadau clir

5.1 pNeg(5)15 – Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

5.2 pNeg(5)16 – Rheoliadau Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

6 Offerynnau Statudol sydd angen Cydsyniad: Brexit

6.1 SICM(5)18 – Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwrm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 50 – 76)

CLA(5)–05–19 – Papur 7 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

CLA(5)– 05–19 – Papur 8 – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)–05–19 – Papur 9 – Rheoliadau

CLA(5)–05–19 – Papur 10 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–05–19 – Papur 11 – Adroddiad

7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

7.1 WS–30C(5)78 – Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 77 – 85)

CLA(5)–05–19 – Papur 12 – Datganiad

CLA(5)– 05–19 – Papur 13 – Sylwebaeth

7.2 WS–30C(5)79 – Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 86 – 89)

CLA(5)–05–19 – Papur 14 – Datganiad

CLA(5)– 05–19 – Papur 15 – Sylwebaeth

7.3 WS-30C(5)80 – Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 90 – 94)

CLA(5)-05-19 – Papur 16 – Datganiad

CLA(5)-05-19 – Papur 17 – Sylwebaeth

7.4 WS-30C(5)81 – Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 95 – 103)

CLA(5)-05-19 – Papur 18 – Datganiad

CLA(5)-05-19 – Papur 19 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol

CLA(5)-05-19 – Papur 20 – Sylwebaeth

7.5 WS-30C(5)82 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 104 – 108)

CLA(5)-05-19 – Papur 21 – Datganiad

CLA(5)-05-19 – Papur 22 – Sylwebaeth

8 Papurau i'w nodi

8.1 Llythyr gan yr Arglwydd Boswell Cadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng y DU a'r UE ar ôl ymadael â'r UE, a rôl y sefydliadau datganoledig

(Tudalennau 109 – 110)

CLA(5)-05-19 – Papur 23 – Llythyr gan yr Arglwydd Boswell: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng y DU a'r UE ar ôl ymadael â'r UE, a rôl y sefydliadau datganoledig

9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y DU: Adroddiad Drafft

(Tudalennau 111 – 146)

CLA(5)–05–19 – Papur 24 – Adroddiad drafft

CLA(5)–09–19 – Papur 25 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

CLA(5)–05–19 – Papur 26 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 29 Ionawr 2019

CLA(5)–05–19 – Papur 27 – Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2019

11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth)

(Tudalennau 147 – 151)

CLA(5)–05–19 – Papur 28 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

CLA(5)–05–19 – Papur 32 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth)

12 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Diweddariad

(Tudalennau 152 – 153)

CLA(5)–05–19 – Papur 29 – Diweddariad

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 04 Chwefror 2019

SL(5)306 – Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gweithdrefn: Cadarnhaol

O ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017, mae'r swyddogaeth o roi cydsyniad mewn perthynas â'r canlynol wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru ("prosiectau newydd datganoledig"):

(a) Cydsynio i orsafoedd cynhyrchu ar y tir ac ar y môr gyda chapasiti o 350MW neu lai;

a

(b) Chydsynio i linellau uwchben gyda foltedd nominal o 132KV neu lai, lle maen nhw'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig.

Gorsafoedd cynhyrchu ar y tir

Ar hyn o bryd, y sefyllfa ddiodyn yw y bydd cydsynio o ran prosiectau newydd datganoledig yn gofyn am ganiatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae hyn yn creu sefyllfa anffafriol lle mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio i brosiectau graddfa lai sydd wedi'u datganoli eisoes, tra bod Awdurdodau Cynllunio Lleol ar lefel leol yn cydsynio i orsafoedd cynhyrchu ar raddfa fwy. Mae'r Rheoliadau hyn yn newid yr anghysondeb hwn drwy sicrhau bod gweithdrefn gydsynio gymesur ar waith.

Llinellau trydan uwchben

Y sefyllfa ddiodyn ers i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym yw mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar lefel leol yw cydsynio i linellau trydan uwchben hyd at ac yn cynnwys 132KV sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu



ddatganoledig. Mae'r Rheoliadau hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru er mwyn i'r penderfyniad gael ei wneud ar lefel genedlaethol.

Storio trydan

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu prosiectau storio trydan ar raddfa fach o'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, er mwyn i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau ar y lefel leol. Caiff cynlluniau o ran storio hydrodrydanol eu cadw fel rhan o'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Newidiadau i ffioedd ar gyfer ceisiadau tybiedig

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 i ganiatáu i ffi fod yn daladwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â chais tybiedig mewn rhai amgylchiadau lle byddai'r cais, fel arall, wedi'i wneud i Weinidogion Cymru.

Rhiant–Ddeddf: Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar:



Offerynnau Statudol sydd ag adroddiadau clir, a ystyriwyd yn flaenrol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn ddarostyngedig i graffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

4 Chwefror 2019

Cafodd yr offerynnau canlynol eu hystyried yn flaenrol i'w sifftio yn unol â Rheol Sefydlog 21.3B. Yn y broses sifft, cytunodd y Pwyllgor ym mhob achos mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau oedd y weithdrefn penderfyniad negyddol. Bellach mae'r offerynnau yn ddarostyngedig i graffu arferol yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Er bod gan yr holl offerynnau adroddiadau clir, maent hefyd yn cynnwys pwynt o ran rhinweddau i amlygu'r broses sifftio:

Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn

SL(5)307 – Rheoliadau Da Byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Y weithdrefn: Negyddol

Gwneir y rheoliadau hyn i arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r is-ddeddfwriaeth a ganlyn, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd cofnodi, adnabod a symud da byw.

Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007;

Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011; a



Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 14 Ionawr 2019

Fe’u gwnaed ar: 21 Ionawr 2019

Fe’u gosodwyd ar: 24 Ionawr 2019

Yn dod i rym ar: Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

SL(5)308 – Rheoliadau Sgil–gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

Y weithdrefn: Negyddol

Bydd yr offeryn yn rhoi sylw i fethiannau o ran deddfwriaeth ddomestig sy’n deillio o ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd, ac yn sicrhau y bydd rheolaethau ar Sgil–gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy yn parhau i weithredu pan fyddwn wedi ymadael â’r UE i ddiogelu iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd.

Mae rheolau’r UE ar gyfer rheoli Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil–gynhyrchion Anifeiliaid o leiaf cystal â, ac mewn rhai achosion yn well na’r safonau rhyngwladol a osodwyd gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (Office International des Epizooties – OIE). Er na fydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar y DU i ymlynu â rheolau’r UE o ran rheoli Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil–gynhyrchion Anifeiliaid ar ôl ymadael â’r UE, o ganlyniad i’r hanes am yr epidemig Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) yn Ewrop (yn enwedig o fewn y DU yn yr 1980/ 90au), bydd trydydd wledydd yn disgwyl i’r DU o leiaf efelychu prif reolaethau’r UE, er bod y rhain yn mynd y tu hwnt i safonau diogelu OIE.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 14 Ionawr 2019



Fe'u gwnaed ar: 21 Ionawr 2019

Fe'u gosodwyd ar: 24 Ionawr 2019

Yn dod i rym ar: Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

SL(5)309 – Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Y weithdrefn: Negyddol

Mae'r offeryn hwn yn dileu cyfeiriadau at Aelodau o Senedd Ewrop, Senedd Ewrop ac etholiadau i Senedd Ewrop na fyddant eu hangen wedi'r dyddiad ymadael. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth yn eu lle.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 7 Ionawr 2019

Fe'u gwnaed ar: 24 Ionawr 2019

Fe'u gosodwyd ar: 28 Ionawr 2019

Yn dod i rym ar: Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

SL(5)311 – Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Y weithdrefn: Negyddol

Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004 trwy ddileu cyfeiriad at Swyddfa Gyhoeddi'r Undeb Ewropeaidd a rhoddi yn ei le gyfeiriad at drefn e-hysbysu y DU. Bydd y cyfeiriad hwnnw yn un at ddiffiniad sydd i'w fewnosod yn rheoliad 5 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 gan reoliad 5 o Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019. Cafodd drafft o'r Rheoliadau hynny eu gosod mewn drafft gerbron Senedd y DU.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018



Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 21 Ionawr 2019

Fe'u gwnaed ar: 24 Ionawr 2019

Fe'u gosodwyd ar: 28 Ionawr 2019

Yn dod i rym ar: Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1



SL(5)304 - Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/262 (Rheoliad yr UE) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer adnabod cheffylau, ac yn disodli Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 (Rheoliadau 2009).

Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi amrywiol ofynion gweinyddol a gweithdrefnol. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion mewn perthynas ag adnabod cheffylau a'r ddogfen adnabod mewn perthynas â cheffylau.

Mae Rhan 3 yn cynnwys eithriadau o ran cheffylau sy'n byw o dan amodau gwyllt neu lled-wyllt.

Mae Rhan 4 yn nodi amryw o droseddau o ran torri'r Rheoliadau hyn a Rheoliad yr UE.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau ynghylch gorfodi a chosbau, ac mae'n rhoi pwerau i arolygwyr a benodir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod gorfodi (awdurdod lleol).

Mae Rhan 6 yn darparu ar gyfer cosbau sifil sydd ar gael i awdurdodau gorfodi.

Mae Rhan 7 yn dirymu Rheoliadau 2009.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 (v) (sydd angen eglurhad pellach ar ei ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol) mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Mae rheoliad 8 (yn Rhan 2 o'r Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog ofyn i'r corff sy'n ei gyhoeddi, i addasu neu ddiweddarau dogfen adnabod cheffyl, os yw'r person cyfrifol (y perchennog neu'r ceidwad) yn credu bod unrhyw fanylion adnabod yn nogfen adnabod y cheffyl angen ei addasu neu'i ddiweddarau. Mewn achosion lle nad yw'r person cyfrifol yn berchennog (ond y ceidwad), efallai y bydd potensial i berchennog beidio â bod yn ymwybodol o gred y ceidwad bod angen diwygio'r ddogfen adnabod. Nid yw Rheoliad 8 yn cynnwys gofyniad i'r person cyfrifol (lle mae hwn yn geidwad y cheffyl, ac nid yn berchennog) i roi gwybod i'r perchennog ei gred bod angen diwygio'r ddogfen adnabod. Mae rheoliad 22(1) yn darparu bod perchennog yn euog o dramgwydd os yw'r perchennog yn torri gwaharddiad, neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad sy'n gymwys i berchennog, gan gynnwys o dan Ran 2. O'r herwydd, mae potensial i berchennog gyflawni trosedd, a chael ei gosbi am y drosedd honno, hyd yn oed lle nad oedd y perchennog yn gwybod, ac efallai na allai fod wedi gwybod, bod angen diwygio dogfen adnabod y cheffyl.

Mae'r rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Lloegr) 2018 (Rheoliadau Lloegr), yn gwneud darpariaeth yn rheoliad 8 ar gyfer addasu manylion adnabod. Fodd bynnag, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog ofyn i'r corff cyhoeddi addasu neu ddiweddarau'r ddogfen adnabod os yw'r "perchennog yn credu bod angen addasu neu ddiweddarau unrhyw fanylion adnabod



sydd yn nogfen adnabod ceffyl". O'r herwydd, nid yw'r un mater yn bodoli yn y Rheoliadau yn Lloegr ag y nodir uchod o ran Cymru. O dan Reoliadau Lloegr, byddai perchennog yn cyflawni trosedd o ran peidio â chydymffurfio â rheoliad 8, dim ond pe na bai'n gofyn iddynt wneud newidiadau yr oedd ef o'r farn bod angen eu gwneud.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac maent yn rhan o "ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" o dan adran 2 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, felly caiff y Rheoliadau hyn eu dargadw fel cyfraith ddomestig a byddant yn parhau i fod mewn grym yng Nghymru ar y diwrnod ymadael ac ar ôl hynny.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

30 Ionawr 2019



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 57 (Cy. 20)

ANIFEILIAID, CYMRU

**Rheoliadau Adnabod Ceffylau
(Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cydategu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/262 ("Rheoliad yr UE"), ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r Rheoliad hwnnw, yng Nghymru. Maent yn darparu ar gyfer adnabod ceffylau ac yn disodli Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2470) (Cy. 199).

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n nodi amryw o ofynion gweinyddol a gweithdrefnol. Yn benodol, mae rheoliad 3 yn dynodi Gweinidogion Cymru yn awdurdod cymwys ac yn awdurdod sootechnegol at ddibenion Rheoliad yr UE. Mae darpariaethau eraill yn Rhan 2 yn nodi amryw o ofynion mewn perthynas ag adnabod ceffylau a'r ddogfen adnabod mewn perthynas â cheffyl.

Mae Rhan 3 yn nodi amryw o eithriadau mewn perthynas â cheffylau sy'n byw o dan amodau gwyllt neu led-wyllt.

Mae Rhan 4 yn nodi amryw o droseddau ynglŷn â thorri darpariaethau yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad yr UE.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau ynghylch gorfodi a chosbi ac yn rhoi pwerau i arolygwyr a benodir gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod gorfodi. Yn benodol, mae rheoliad 35 yn darparu y caiff awdurdodau gorfodi ddewis cymhwyso sancsiynau sifil yn hytrach na chosbau troseddol pan fyddant yn siŵr bod trosedd wedi ei chyflawni. Mae Rhan 6 wedyn yn nodi'r sancsiynau sifil sydd ar gael i'r awdurdodau gorfodi.

Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â dirymu Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 57 (Cy. 20)

ANIFEILIAID, CYMRU

**Rheoliadau Adnabod Ceffylau
(Cymru) 2019**

Gwnaed 15 Ionawr 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 17 Ionawr 2019

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

CYNNWYS

RHAN 1

Rhagarweiniol

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

RHAN 2

**Darpariaethau a gofynion gweinyddol a
gweithdrefnol**

3. Awdurdod cymwys ac awdurdod sootechnegol at ddibenion Rheoliad yr UE
4. Trosglwyddo perchnogaeth ceffylau
5. Adnabod ceffylau
6. Ceisiadau am ddogfennau adnabod
7. Cwblhau dogfennau adnabod presennol ceffylau a fewnforiwyd i'r Undeb Ewropeaidd
8. Addasu manylion adnabod mewn dogfennau adnabod
9. Ffurf a chynnwys dogfennau adnabod
10. Dilysu dogfennau adnabod
11. Gofyniad i ddarparu dogfen adnabod i filfeddyg sy'n trin ceffyl
12. Cigydda ceffyl, marwolaeth ceffyl neu golli ceffyl
13. Trawsatebyddion

14. Cardiau clyfar
15. Cronfeydd data

RHAN 3

Ceffylau yn byw o dan amodau gwyllt neu led-wyllt

16. Eithriadau mewn cysylltiad â cheffylau gwyllt neu led-wyllt penodol
17. Gofyniad ynghylch dogfen adnabod a thrawsatebydd i geffylau gwyllt neu led-wyllt a drinnir â chynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol
18. Ceffylau gwyllt a led-wyllt: gofyniad ynghylch dogfen adnabod i symud o ardal ddynodedig
19. Eithriad i'r gofyniad ynghylch dogfen adnabod: ceffylau gwyllt neu led-wyllt a symudir am resymau lles neu i'w cigydda
20. Gofynion ynglŷn â cheffylau gwyllt neu led-wyllt 12 mis oed neu drosodd a symudir i'w cigydda
21. Gofynion ynglŷn â cheffylau gwyllt neu led-wyllt a symudir heblaw i'w cigydda

RHAN 4

Troseddau

22. Cyffredinol
23. Cadw dogfen adnabod yn ôl oddi wrth y person cyfrifol
24. Darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol
25. Meddu ar ddogfen adnabod a ffugwyd
26. Dinistrio, difwyno neu newid etc yn amhriodol
27. Troseddau ynghylch mewnbrannu trawsatebydd
28. Rhwystro
29. Troseddau gan gyrff corfforaethol
30. Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

RHAN 5

Gorfodi a chosbi

31. Awdurdodau gorfodi
32. Penodi arolygwyr
33. Arolygwyr: pwerau i fynd i mewn a phwerau cyffredinol
34. Cosbau troseddol

35. Dewis mynd ar ôl sancsiynau sifil yn lle cosbau troseddol

RHAN 6

Sancsiynau sifil

36. Eu cymhwyso
37. Hysbysiad cydymffurfio
38. Hysbysiad cosb am beidio â chydymffurfio
39. Hysbysiad cosb ariannol benodedig
40. Hysbysiad adennill costau gorfodi
41. Gwybodaeth i'w darparu mewn hysbysiad neu gydag ef
42. Tynnu hysbysiad yn ôl a'i ail-ddyroddi
43. Apelio
44. Y cyfnod y mae angen talu o'i fewn a'r pŵer i adennill taliadau
45. Derbyniadau

RHAN 7

Amrywiol

46. Dirymu Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf 1972(3) a chan baragraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

-
- (1) O.S. 2010/2690.
(2) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o'r diwrnod ymadael (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).
(3) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Fe'i diwygiwyd gan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008, a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno a chan O.S. 2007/1388. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 o'r diwrnod ymadael (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn hwylus i gyfeiriadau yn y rheoliadau hyn at ddarpariaethau yn offerynnau'r Undeb Ewropeaidd gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 a, heblaw rheoliad 13(3)(c), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Chwefror 2019.

(2) Daw rheoliad 13(3)(c) i rym ar 12 Chwefror 2021.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “ardal ddynodedig” (“*designated area*”) yw ardal a ddisgrifir felly yn rheoliad 16;

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw person a benodir yn arolygydd o dan reoliad 32 neu o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1);

ystyr “awdurdod gorfodi” (“*enforcing authority*”) yw awdurdod lleol sy'n syrthio o fewn rheoliad 31;

ystyr “ceffyl” (“*equine*”) yw anifail carngaled, gwyllt, lled-wyllt neu ddof, o fewn y genws *Equus* o'r teulu *Equidae*, a chroesiadau rhwng anifeiliaid o'r fath;

ystyr “ceffyl gwyllt neu led-wyllt” (“*wild or semi-wild equine*”) yw ceffyl sy'n syrthio o fewn rheoliad 16(1);

mae i “ceidwad” yr ystyr a roddir i “*keeper*” yn Erthygl 2;

ystyr “corff dyroddi” (“*issuing body*”) yw corff dyroddi fel y cyfeirir at “*issuing body*” yn Erthygl 5(1);

mae i “cosb am beidio â chydymffurfio” (“*non-compliance penalty*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 38;

mae i “cosb ariannol benodedig” (“*fixed monetary penalty*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 39;

(1) 1981 p. 22.

ystyr “costau gorfodi” (“*enforcement costs*”) yw’r costau y mae’n ofynnol i berson eu talu o dan hysbysiad adennill costau gorfodi;

ystyr “dogfen adnabod” (“*ID*”) yw’r ddogfen adnabod at adnabod ceffyl yn unol â Rheoliad yr UE a’r Rheoliadau hyn;

ystyr “Erthygl” (“*Article*”) yw Erthygl yn Rheoliad yr UE;

mae i “hysbysiad adennill costau gorfodi” (“*enforcement costs recovery notice*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 40;

mae i “hysbysiad cosb am beidio â chydymffurfio” (“*non-compliance penalty notice*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 38;

mae i “hysbysiad cosb ariannol benodedig” (“*fixed monetary penalty notice*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 39;

mae i “hysbysiad cydymffurfio” (“*compliance notice*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 37;

mae i “milfeddyg swyddogol” yr ystyr a roddir i “*official veterinarian*” yn Erthygl 2;

ystyr “o fewn 24 awr” (“*within 24 hours*”) yw cyn diwedd y cyfnod o 24 awr sy’n dechrau â’r amser—

- (a) y caiff yr wybodaeth ei chreu neu ei diwygio, at ddibenion rheoliad 15(1)(a); neu
- (b) y caiff y corff dyroddi gais Gweinidogion Cymru, at ddibenion rheoliad 15(1)(b),

ond heb gynnwys unrhyw amser nad yw’n rhan o ddiwrnod gwaith; ac at y diben hwn ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy’n wyl banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

mae i “perchennog” yr ystyr a roddir i “*owner*” yn Erthygl 2;

ystyr “person cyfrifol” (“*responsible person*”) yw—

- (a) y perchennog; neu
- (b) os nad y perchennog sy’n bennaf cyfrifol am y ceffyl o dan sylw o ddydd i ddydd, y ceidwad;

ystyr “Rheoliad yr UE” (“*EU Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/262 dyddiedig 17 Chwefror 2015(2) yn gosod rheolau yn unol â Chyfarwyddebau’r Cyngor

(1) 1971 c. 80.
(2) OJ Rhif L.59, 3.3.2015, t.1.

90/427/EEC(1) a 2009/156/EC(2) o ran dulliau adnabod equidae, fel y'u diwygir o dro i dro;

mae i "trawsatebydd" yr ystyr a roddir i "transponder" yn Erthygl 2;

mae i "troseddwr" ("offender") yr ystyr a roddir yn rheoliad 35(1).

RHAN 2

Darpariaethau a gofynion gweinyddol a gweithdrefnol

Awdurdod cymwys ac awdurdod sootechnegol at ddibenion Rheoliad yr UE

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys a'r awdurdod sootechnegol at ddibenion Rheoliad yr UE.

Trosglwyddo perchnogaeth ceffylau

4.—(1) Rhaid i berson sy'n trosglwyddo perchnogaeth ceffyl i berson arall (y "trosglwyddai") ddarparu dogfen adnabod y ceffyl hwnnw i'r trosglwyddai adeg y trosglwyddo.

(2) Cyn diwedd y cyfnod o 30 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth y trosglwyddiad i rym, rhaid i'r trosglwyddai—

- (a) hysbysu'r awdurdod dyroddi—
 - (i) am drosglwyddiad y berchnogaeth; a
 - (ii) am enw, cyfeiriad a manylion cysylltu'r trosglwyddai; a
- (b) anfon dogfen adnabod y ceffyl o dan sylw at y corff dyroddi.

Adnabod ceffylau

5. Rhaid i berson beidio â chadw ceffyl oni bai bod y ceffyl wedi ei adnabod yn unol â Rheoliad yr UE a'r Rheoliadau hyn.

Ceisiadau am ddogfennau adnabod

6.—(1) At ddibenion Erthyglau 3(3) ac 11(2), rhaid i berchennog ceffyl a aned yn yr Undeb Ewropeaidd ac a leolir ar ddaliad yng Nghymru sicrhau bod cais am ddogfen adnabod i'r ceffyl hwnnw yn dod i law corff

-
- (1) OJ Rhif L 224, 18.8.1990, t. 55. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC dyddiedig 15 Gorffennaf 2008 (OJ Rhif. L 219, 14.8.2008, t. 40).
 - (2) OJ Rhif L 192, 23.7.2010, t. 1. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU dyddiedig 13 Mai 2013 (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234 a chan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1840 dyddiedig 14 Hydref 2016 (OJ Rhif L 280, 18.10.2016, t. 33).

dyroddi heb fod yn hwyrach na 30 niwrnod cyn y dyddiad olaf ar gyfer dyroddi dogfen adnabod fel y'i nodir ym mharagraff (2).

(2) Y dyddiad terfynol yw'r hwyrach o'r ddau hyn—

- (a) 31 Rhagfyr ym mlwyddyn galendr genedigaeth y ceffyl; neu
- (b) 6 mis ar ôl dyddiad geni'r ceffyl.

(3) Rhaid anfon gyda'r cais unrhyw ffi a bennir gan y corff dyroddi y cyflwynir y cais iddo.

Cwblhau dogfennau adnabod presennol ceffylau a fewnforiwyd i'r Undeb Ewropeaidd

7. Rhaid i'r ceidwad ddarparu i'r corff dyroddi yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i ganiatáu i'r corff gwblhau dogfen adnabod bresennol at ddibenion Erthygl 15(2), yn ddarostyngedig i Erthygl 15(3), fel ei bod yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 7(2).

Addasu manylion adnabod mewn dogfennau adnabod

8. Os yw'r person cyfrifol yn credu bod angen i unrhyw fanylion adnabod a gynhwysir yn nogfen adnabod y ceffyl gael eu haddasu neu eu diweddarau, boed yn unol ag Erthygl 27(1) neu fel arall, rhaid i'r perchennog ofyn i'r corff dyroddi addasu'r ddogfen adnabod neu ei diweddarau.

Ffurf a chynnwys dogfennau adnabod

9.—(1) Mae corff dyroddi—

- (a) yn gorfod sicrhau bod unrhyw stoc o ddogfennau adnabod gwag a argraffwyd ymlaen llaw (“stoc wag a argraffwyd ymlaen llaw”) y mae'n ei dal neu'n ei chadw;
- (b) yn gorfod sicrhau bod unrhyw ddogfen adnabod y mae'n ei dyroddi o'r stoc wag hon a argraffwyd ymlaen llaw; ac
- (c) yn cael sicrhau bod dogfen adnabod y mae'n ei dyroddi heblaw o stoc wag a argraffwyd ymlaen llaw,

yn cydymffurfio â pharagraff (2).

(2) At ddibenion paragraff (1), rhaid i'r ddogfen adnabod neu'r stoc wag a argraffwyd ymlaen llaw gynnwys o leiaf rif cyfresol a argraffwyd ar bob un o'r tudalennau sy'n ffurfio adrannau I i III o'r ddogfen adnabod (fel y nodir yn Atodiad I i Reoliad yr UE).

(3) Rhaid i gorff dyroddi sicrhau bod yr holl ddogfennau adnabod a'r holl stoc wag a argraffwyd ymlaen llaw yn cael eu rheoli mewn modd diogel ar ei fangreoedd.

(4) Os bydd dogfen adnabod neu unrhyw stoc wag a argraffwyd ymlaen llaw wedi eu colli, yn eisiau neu wedi eu dwyn, rhaid i'r corff dyroddi o dan sylw—

- (a) hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted â phosibl eu bod wedi eu colli, yn eisiau neu wedi eu dwyn; a
- (b) gyda'r hysbysiad a grybwyllwyd yn is-baragraff (a), hysbysu Gweinidogion Cymru—
 - (i) am yr amgylchiadau ynglŷn â'r ffaith eu bod wedi eu colli, yn eisiau neu wedi eu dwyn; a
 - (ii) am rifau cyfresol y ddogfen adnabod neu'r stoc wag a argraffwyd ymlaen llaw ac sydd o dan sylw.

(5) At ddibenion Erthygl 9(1)(c), fel y'i darllenir gydag Erthygl 10(3), ac yn ddarostyngedig i'r Erthygl honno, rhaid i'r corff dyroddi o dan sylw sicrhau bod adran IV (manylion perchnogaeth) dogfen adnabod wedi ei chwblhau cyn i'r ddogfen adnabod gael ei dyroddi o dan Erthygl 9.

(6) Caiff dogfen adnabod neu unrhyw ran ohoni fod mewn iaith ychwanegol.

Dilysu dogfennau adnabod

10. Os ceir cais gan Weinidogion Cymru, rhaid i gorff dyroddi ddilysu a yw dogfen adnabod a ddyroddwyd ganddo, neu y mae'n ymddangos ei bod wedi ei dyroddi ganddo, yn unigryw, yn wir ac yn ddilys.

Gofyniad i ddarparu dogfen adnabod i filfeddyg sy'n trin ceffyl

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os bydd milfeddyg yn trin ceffyl.

(2) Os ceir cais rhesymol gan y milfeddyg, rhaid i'r person cyfrifol ddarparu dogfen adnabod y ceffyl i'r milfeddyg yn ddi-oed.

Cigydda ceffyl, marwolaeth ceffyl neu golli ceffyl

12.—(1) Pan fo'n ofynnol, yn unol ag Erthygl 34(1)(c)(ii), i filfeddyg swyddogol, neu berson sy'n gweithredu o dan oruchwyliaeth milfeddyg swyddogol, ddychwelyd dogfen adnabod sydd heb ei dilysu i'r corff dyroddi, rhaid i'r milfeddyg swyddogol, neu'r person sy'n gweithredu o dan ei oruchwyliaeth, ddychwelyd y ddogfen adnabod honno i'r corff dyroddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Pan fo'n ofynnol, yn unol ag Erthygl 35(1), i geidwad ddychwelyd dogfen adnabod i'r corff dyroddi, rhaid i'r ceidwad ddychwelyd y ddogfen

adnabod honno i'r corff dyroddi o fewn cyfnod o 30 niwrnod ar ôl marwolaeth y ceffyl neu ar ôl colli'r ceffyl.

Trawsatebyddion

13.—(1) At ddibenion Erthygl 18(3), y cymhwyster gofynnol i'r person yr ymddiriedir ynddo i fewnblannu trawsatebydd yw aelodaeth o Goleg Brenhinol y Milfeddygon, ac yn y rheoliad hwn cyfeirir at y person hwnnw fel “milfeddyg”.

(2) Rhaid i filfeddyg sy'n mewnblannu trawsatebydd mewn ceffyl gymryd y mesurau a nodir yn Erthyglau 16 a 17(1) ar ran corff dyroddi.

(3) At ddibenion Erthygl 18(5), rhaid i'r person cyfrifol drefnu bod milfeddyg yn mewnblannu trawsatebydd mewn ceffyl y bernir ei fod wedi ei adnabod yn unol ag Erthyglau 4(2) neu 43(1)—

- (a) os bydd trawsatebydd a fewnblannwyd ac a gofnodwyd o'r blaen yn peidio â gweithredu;
- (b) os bydd y ceffyl yn cyrraedd Cymru ar ôl mynd drwy ddull arall o ddilysu ei fanylion adnabod a awdurdodwyd gan Aelod-wladwriaeth arall o dan Erthygl 21; neu
- (c) os yw'r ceffyl—
 - (i) heb fod yn syrthio o fewn is-baragraffau (a) neu (b);
 - (ii) heb gael trawsatebydd wedi ei fewnblannu eisoes i gydymffurfio â'r gofynion neu'r manylion ynglŷn â thrawsatebyddion a nodir yn Rheoliad yr UE neu Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 504/2008(1) dyddiedig 6 Mehefin 2008 yn gweithredu Cyfarwyddebau'r Cyngor 90/426/EEC a 90/427/EEC o ran dulliau adnabod equidae; a
 - (iii) wedi ei eni ar neu cyn 30 Mehefin 2009.

(4) Rhaid i filfeddyg sy'n mewnblannu trawsatebydd mewn ceffyl sicrhau bod y trawsatebydd yn dangos cod sy'n unigryw i'r trawsatebydd.

Cardiau clyfar

14.—(1) Caniateir i geffyl y mae dogfen adnabod wedi ei dyroddi ar ei gyfer gael ei symud neu ei gludo yng Nghymru, neu i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, heb fod ei ddogfen adnabod gydag ef, os ceir cerdyn clyfar gydag ef sydd wedi ei ddyroddi yn unol ag Erthygl 25.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch ffurf cardiau clyfar.

(1) OJ Rhif L 149, 7.6.2008, t. 3.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i “cerdyn clyfar” yr ystyr a roddir i “*smart card*” yn Erthygl 2.

Cronfeydd data

15.—(1) Rhaid i gorff dyroddi ddarparu’r wybodaeth a ganlyn i’r gronfa ddata ganolog—

- (a) o fewn 24 awr ar ôl i’r wybodaeth gael ei chreu neu ei diwygio gan y corff—
 - (i) y manylion adnabod a ddisgrifir yn Erthygl 27(1);
 - (ii) yr wybodaeth a gofnodwyd yng nghronfa ddata’r corff dyroddi o dan Erthygl 38(1);
- (b) o fewn 24 awr ar ôl cael cais gan Weinidogion Cymru, unrhyw wybodaeth arall (nad yw’n syrthio o fewn is-baragraff (a)) y mae’n rhesymol i Weinidogion Cymru ofyn amdani mewn perthynas â dyroddi unrhyw ddogfen adnabod gan y corff dyroddi neu mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau’r corff dyroddi o dan y Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE.

(2) Yn dilyn cais mewn ysgriflen gan gorff dyroddi, caiff Gweinidogion Cymru ymestyn yr amser pryd y mae’r corff dyroddi i ddarparu’r wybodaeth o dan baragraff (1) i’r gronfa ddata ganolog.

(3) Rhaid i unrhyw estyniad amser o dan baragraff (2) gael ei hysbysu i’r corff dyroddi mewn ysgriflen.

(4) At ddibenion Erthygl 40(1), rhaid i gorff dyroddi ymgorffori’r wybodaeth sy’n syrthio o fewn Erthyglau 28(e) a 38(1) yn y gronfa ddata ganolog.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff dyroddi ynghylch y gronfa ddata ganolog a sut i gofnodi gwybodaeth ynddi.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru rannu unrhyw ddata neu wybodaeth sy’n cael eu dal neu eu storio yn y gronfa ddata ganolog, neu sydd i’w dal neu i’w storio ynddi, gyda’r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac, yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr “cronfa ddata ganolog” yw’r gronfa ddata a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag Erthygl 39.

RHAN 3

Ceffylau sy'n byw o dan amodau gwyllt neu led-wyllt

Eithriadau mewn cysylltiad â cheffylau gwyllt neu led-wyllt penodol

16.—(1) Mae'r rhanddirymiad yn Erthygl 13 yn gymwys mewn perthynas â cheffylau—

- (a) a nodir yn y rhestrau a gedwir gan Gymdeithasau Gwella Merlod Mynydd Cymru; neu
- (b) a nodir yn y rhestrau a gedwir gan Gymdeithas Merlod y Carneddau.

(2) At ddibenion Erthygl 13, fel y'i darllenir gydag Erthygl 43(3), yr ardaloedd (“ardaloedd dynodedig”) a ddiffinnir gan Weinidogion Cymru ac sy'n cynnwys cheffylau gwyllt neu led-wyllt nad oes angen eu hadnabod â dogfennau adnabod tra byddant yn aros o fewn yr ardaloedd dynodedig yw'r ardaloedd hynny a hysbyswyd gan Weinidogion Cymru i'r Comisiwn ar 17 Medi 2009.

(3) At ddibenion Erthygl 13(1), nid oes angen i geffylau gwyllt neu led-wyllt a drosglwyddir o dan oruchwyliaeth swyddogol o un o'r rhestrau a ddisgrifir ym mharagraff (1) i'r rhestr arall a ddisgrifir ym mharagraff (1) gael eu hadnabod â dogfennau adnabod.

(4) Rhaid i geffylau gwyllt neu led-wyllt sy'n byw mewn ardal ddynodedig gael eu hadnabod â dogfen adnabod pan ddechreuir eu defnyddio at ddibenion domestig.

Gofyniad ynghylch dogfen adnabod a thrawsatebydd i geffylau gwyllt neu led-wyllt a drinnir â chynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol

17. Os trinnir ceffyl gwyllt neu led-wyllt sydd heb ddogfen adnabod mewn ardal ddynodedig ag unrhyw gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol, rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod gan y ceffyl ddogfen adnabod a'i fod yn cael ei fewnblannu â thrawsatebydd—

- (a) yn unol â Rheoliad yr UE; a
- (b) o fewn 30 niwrnod ar ôl y driniaeth.

Ceffylau gwyllt a led-wyllt: gofyniad ynghylch dogfen adnabod i symud o ardal ddynodedig

18. Yn ddarostyngedig i reoliad 19, ni chaiff y person cyfrifol symud ceffyl gwyllt neu led-wyllt sydd heb ddogfen adnabod allan o ardal ddynodedig.

**Eithriad i'r gofyniad ynghylch dogfen adnabod:
ceffylau gwyllt neu led-wyllt a symudir am resymau
lles neu i'w cigydda**

19.—(1) Caiff y person cyfrifol symud ceffyl gwyllt neu led-wyllt allan o ardal ddynodedig heb ddogfen adnabod—

- (a) os yw'r ceffyl yn cael ei symud allan o'r ardal ddynodedig dros dro ac am resymau lles; neu
- (b) os yw'r ceffyl—
 - (i) yn llai na 12 mis oed a chanddo sêr deintyddol gweledol ar y blaendannedd ochrol dros dro;
 - (ii) yn cael ei symud yn uniongyrchol o'r ardal ddynodedig y'i ganed ynnddi i le i gael ei gigydda (boed ar gyfer ei fwyta gan bobl ai peidio);
 - (iii) heb gael ei drin o'r blaen ag unrhyw gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol; a
 - (iv) â sticer a ddyroddwyd gan gorff dyroddi wedi ei osod arno cyn iddo ymadael â'r ardal ddynodedig, ac mae'n rhaid bod y sticer wedi ei farcio â rhif adnabod unigryw a'r dyddiad y cafodd ei osod ar y ceffyl.

(2) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ceffyl sy'n syrthio o fewn paragraff (1)(b) yn cael ei gigydda o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a welir ar y sticer.

**Gofynion ynglŷn â cheffylau gwyllt neu led-wyllt 12
mis oed neu drosodd a symudir i'w cigydda**

20.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i geffyl gwyllt neu led-wyllt—

- (a) sy'n 12 mis neu drosodd; a
- (b) sy'n cael ei symud o ardal ddynodedig i le i gael ei gigydda (boed ar gyfer ei fwyta gan bobl ai peidio).

(2) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod gan y ceffyl (yn ychwanegol at ddogfen adnabod) sticer a ddyroddwyd gan gorff dyroddi wedi ei osod arno cyn iddo ymadael â'r ardal ddynodedig, ac mae'n rhaid bod y sticer wedi ei farcio â rhif adnabod unigryw a'r dyddiad y cafodd ei osod ar y ceffyl.

(3) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ceffyl sy'n syrthio o fewn paragraff (1) yn cael ei gigydda o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a welir ar y sticer.

**Gofynion ynglŷn â cheffylau gwyllt neu led-wyllt a
symudir heblaw i'w cigydda**

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i geffyl gwyllt neu led-wyllt sydd—

- (a) o unrhyw oedran; a
- (b) yn cael ei symud o ardal ddynodedig i le arall (y “cyrchnod crynhoi”) at ddiben heblaw cigyddu.

(2) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod gan y ceffyl (yn ychwanegol at ddogfen adnabod) sticer a ddyroddwyd gan gorff dyroddi wedi ei osod arno cyn iddo ymadael â'r ardal ddynodedig, ac mae'n rhaid bod y sticer wedi ei farcio â rhif adnabod unigryw a'r dyddiad y cafodd ei osod ar y ceffyl.

(3) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod ceffyl sy'n syrthio o fewn paragraff (1) yn cyrraedd ei gyrchnod crynhoi o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad a welir ar y sticer.

(4) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod trawsatebydd yn cael ei fewnblannu yn y ceffyl cyn diwedd y cyfnod o 30 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r ceffyl yn cyrraedd y gyrchnod crynhoi.

(5) Heblaw dros dro neu am resymau lles, rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw'r ceffyl yn cael ei symud allan o'r gyrchnod crynhoi nes bod y trawsatebydd wedi ei fewnblannu.

RHAN 4

Troseddau

Cyffredinol

22.—(1) Mae perchennog yn euog o drosedd os yw'n torri gwaharddiad, neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad, sy'n gymwys i berchennog (gan gynnwys perchennog yn rhinwedd ei swydd fel person cyfrifol) yn Rhannau 2 a 3 neu yn Rheoliad yr UE.

(2) Mae ceidwad yn euog o drosedd os yw'n torri gwaharddiad, neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad, sy'n gymwys i geidwad (gan gynnwys ceidwad yn rhinwedd ei swydd fel person cyfrifol) yn Rhannau 2 a 3 neu yn Rheoliad yr UE.

(3) Mae corff dyroddi'n euog o drosedd os yw'n torri gwaharddiad, neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad, sy'n gymwys i gorff dyroddi yn Rhannau 2 a 3 neu yn Rheoliad yr UE.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mae milfeddyg yn euog o drosedd os yw'n torri gwaharddiad, neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad, sy'n gymwys i filfeddyg yn Rhannau 2 a 3 neu yn Rheoliad yr UE.

(5) Nid yw milfeddyg yn euog o unrhyw drosedd o fethu â chofnodi gwybodaeth mewn dogfen adnabod, neu fethu â diweddarau dogfen adnabod, os yw wedi gofyn i'r person cyfrifol am y ddogfen adnabod at y

diben hwnnw ac nad yw'r person cyfrifol yn darparu, neu nad yw wedi darparu, y ddogfen adnabod i'r milfeddyg.

Cadw dogfen adnabod yn ôl oddi wrth y person cyfrifol

23. Mae person yn euog o drosedd os yw, heb esgus rhesymol, yn cadw dogfen adnabod ceffyl yn ôl oddi wrth y person cyfrifol.

Darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol

24. Mae person yn euog o drosedd os yw'n gwneud datganiad neu'n darparu gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol—

- (a) wrth wneud cais am ddyroddi neu amrywio dogfen adnabod;
- (b) mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth mewn dogfen adnabod neu â chofrestru dogfen adnabod; neu
- (c) i unrhyw berson sy'n gweithredu mewn perthynas â gorfodi'r Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE.

Meddu ar ddogfen adnabod a ffugwyd

25.—(1) Mae person yn euog o drosedd os yw'n meddu ar ddogfen adnabod gan wybod ei bod wedi ei ffugio.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os oes gan y person, ar yr adeg o dan sylw, ddogfen adnabod a ffugwyd dim ond er mwyn ei dinistrio neu i'w rhoi i awdurdod gorfodi, yr heddlu neu Weinidogion Cymru.

Dinistrio, difwyno neu newid etc yn amhriodol

26. Mae person yn euog o drosedd os yw, heblaw yn unol ag unrhyw hawlogaeth, rhwymedigaeth neu ofyniad i wneud hynny yn y Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE—

- (a) yn dinistrio neu'n difwyno dogfen adnabod;
- (b) yn newid unrhyw gofnod mewn dogfen adnabod; neu
- (c) yn difwyno, yn difodi neu'n dileu unrhyw farc a osodwyd o dan reoliad 33, ac eithrio o dan awdurdod ysgrifenedig arolygydd.

Troseddau ynghylch mewtblannu trawsatebydd

27. Mae person yn euog o drosedd os yw yn fwriadol—

- (a) yn mewtblannu, neu'n ceisio mewtblannu, mewn ceffyl, ddyfais—

- (i) nad yw'n drawsatebydd dilys; neu
 - (ii) sydd wedi ei fewnblannu o'r blaen mewn anifail arall, neu wedi ei defnyddio ar gyfer anifail arall; neu
- (b) yn ymyrryd â thrawsatebydd, neu'n ei newid fel arall, gan fwriadu twyllo.

Rhwystro

28. Mae person yn euog o drosedd os yw—

- (a) yn fwriadol yn rhwystro arolygydd sy'n gweithredu wrth orfodi'r Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE;
- (b) heb achos rhesymol, yn methu â rhoi i arolygydd sy'n gweithredu wrth orfodi'r Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'n rhesymol i'r arolygydd ofyn amdanynt at y diben hwnnw; neu
- (c) yn methu â dangos dogfen, cofnod neu ddogfen adnabod pan ofynnir iddo wneud hynny i unrhyw berson sy'n gweithredu wrth orfodi'r Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE.

Troseddau gan gyrrff corfforaethol

29.—(1) Pan fo corff corfforaethol yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ac y profir bod y drosedd honno wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson tebyg arall i'r corff corfforaethol; neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

mae'r person hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforaethol) hefyd yn euog o'r drosedd.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

30.—(1) Caniateir i achos ynglŷn â throedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achos o'r fath—

- (a) bydd rheolau llys mewn perthynas â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe

bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn gorff corfforaethol;

(b) bydd adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(1) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(2) yn gymwys mewn perthynas â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Pan fo partneriaeth yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ac y profir bod y drosedd honno wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad partner, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, mae'r partner hwnnw (yn ogystal â'r bartneriaeth) hefyd yn euog o'r drosedd.

(5) At y dibenion hyn, mae "partner" yn cynnwys person sy'n honni ei fod yn gweithredu fel partner.

(6) Pan fo cymdeithas anghorfforedig yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ac y profir bod y drosedd honno wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad swyddog i'r gymdeithas, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog i'r gymdeithas, mae'r swyddog hwnnw (yn ogystal â'r gymdeithas) hefyd yn euog o'r drosedd.

(7) At y dibenion hyn, ystyr "swyddog" yw swyddog i'r gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath.

RHAN 5

Gorfodi a chosbi

Awdurdodau gorfodi

31.—(1) Yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r Rheoliadau hyn a Rheoliad yr UE.

(2) Mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu mewn unrhyw achos penodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod rhaid i ddyletswydd orfodi a osodir ar yr awdurdod lleol o dan y rheoliad hwn gael ei chyflawni gan Weinidogion Cymru, ac nid gan yr awdurdod lleol ac mewn achosion o'r fath, Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod gorfodi at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(1) 1925 p. 86. Deddfiadau diwygio perthnasol yw Atodlen 6 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55) ac Atodlen 8 i Ddeddf Llysoedd 1971 (p. 23).

(2) 1980 p. 43.

Penodi arolygwyr

32. Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod gorfodi benodi person (“arolygydd”) er mwyn gorfodi’r Rheoliadau hyn neu Reoliad yr UE.

Arolygwyr: pwerau i fynd i mewn a phwerau cyffredinol

Scrutiny statement where amending regulations under 2(2) ECA 1972	Paragraph 16, Schedule 8	Anybody making an SI after exit day under powers outside the European Union (Withdrawal) Act 2018 which modifies subordinate legislation made under s. 2(2) ECA	Statement setting out: a) the steps which the relevant authority has taken to make the draft instrument published in accordance with paragraph 16(2), Schedule 8 available to each House of Parliament, b) containing information about the relevant authority's response to— (i) any recommendations made by a committee of either House of Parliament about the published draft instrument, and (ii) any other representations made to the relevant authority about the published draft instrument, and, c) containing any other information that the relevant authority considers appropriate in relation to the scrutiny of the instrument or draft instrument which is to be laid.

Part 2

Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

1. Appropriateness statement

- 1.1 The Minister of State for Agriculture, Fisheries and Food, George Eustice MP, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view the Fertilisers and Ammonium Nitrate Material (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 do no more than is appropriate.”

- 1.2 This is the case because: the amendments to retained direct EU legislation and domestic legislation are the minimum required to make the legislation operable and they maintain current regulatory standards.

2. Good reasons

- 2.1 The Minister of State for Agriculture, Fisheries and Food, George Eustice MP, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view there are good reasons for the provisions in this instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action.”

- 2.2 These are: the amendments to retained direct EU legislation and domestic legislation are the minimum required to make the legislation operable. They maintain current regulatory standards and ensure the continued supply of ‘EC fertilisers’ and ammonium nitrate materials for a two year transitional period, providing continuity to the sector and security of supply for farmers.

3. Equalities

- 3.1 The Minister of State for Agriculture, Fisheries and Food, George Eustice MP, has made the following statement(s):

“The instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts.”

- 3.2 The Minister of State for Agriculture, Fisheries and Food, George Eustice MP, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In relation to the instrument, I, George Eustice MP have had due regard to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the Equality Act 2010.”

4. Explanations

- 4.1 The explanations statement has been made in section 2 of the main body of this Explanatory Memorandum.

5. Legislative sub-delegation

5.1 The Minister of State for Agriculture, Fisheries and Food, George Eustice MP, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view it is appropriate to create a relevant sub-delegated power in the Fertilisers and Ammonium Nitrate Material (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019.”

5.2 This is appropriate because: the relevant power in Article 30 of the EU Regulation concerns the identity of approved laboratories for the purposes of testing of fertilisers. The list of approved laboratories will be published and will not be made by legislation; this reflects the current process undertaken by the EU Commission. It is therefore not appropriate for the removal of a laboratory from the list because it does not meet the required standards to be made by way of legislation.

SICM(5)18 – Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniw m Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Y cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau cadarnhaol hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag:

- adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 iddi, ac
- adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Crynodeb

Ar ôl ymadael, heb ei diwygio, ni fyddai cyfraith gymwys yr UE yn gweithredu'n iawn, a byddai'n amharu ar y fasnach o ran gwrtaith sydd wedi'i awdurdodi ar hyn o bryd o dan gyfraith yr UE. Mae newidiadau yn cael eu gwneud i gynnal safonau gwrtaith yng nghyfraith y DU ac i roi parhad i'r sector a sicrwydd o ran y cyflenwad i ffermwyr.

Mae'r offeryn hwn yn disodli'r gyfundrefn 'gwrtaith y Comisiwn Ewropeaidd' yng nghyfraith yr UE gyda threfn ddomestig newydd, sy'n darparu ar gyfer label 'gwrtaith y DU' a fydd yn gweithredu yn yr un modd. Mae hefyd yn caniatáu cyfnod pontio o ddwy flynedd, pan fydd modd i 'wrteithiau'r UE' gael eu gwerthu yn y DU o hyd, heb ofyniad i'w hail-labelu, er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus ac i leihau'r baich ar fusnesau o ganlyniad i ymadael. Mae'r offeryn hefyd yn diwygio'r rheolau o ran mewnfurio gwrtaith amoniwm nitrad, i gynnal safonau diogelwch cyfredol ar yr un pryd â sicrhau cysondeb.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig **2 Tachwedd 2018** ynghylch y Rheoliadau.

Yn wreiddiol, cynigiwyd y Rheoliadau i ddilyn y weithdrefn datrys negyddol yn Senedd y DU ym mis **Tachwedd 2018**. Pan osodwyd y Rheoliadau drafft gwreiddiol gerbron Senedd y DU ar gyfer eu sifftio, gosododd Gweinidogion Cymru gerbron y Cynulliad ddatganiad a oedd yn crynhoi effaith y Rheoliadau drafft, yn unol â Rheol Sefydlog 30C.

Ymddengys nad oedd y Rheoliadau drafft erioed wedi cael eu gwneud yn ffurfiol. Yn lle hynny, gosodwyd y Rheoliadau newydd hyn a fydd yn dilyn y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.



Mae'r fersiwn gadarnhaol hon o'r Rheoliadau hyn yn **wahanol** i'r fersiwn negyddol arfaethedig o'r Rheoliadau. Y gwahaniaeth pwysicaf, at ddibenion y Pwyllgor, yw bod y Rheoliadau cadarnhaol newydd yn diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1970 ac felly yn ei gwneud yn ofynnol i osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM).

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi'i osod, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod datganiad ysgrifenedig wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newid a wnaed i'r Rheoliadau. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y Rheoliadau cadarnhaol newydd yn gyfres wahanol o reoliadau, ac felly y dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad ysgrifenedig newydd yn unol â Rheol Sefydlog 30C.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn creu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

O ran y diwygiad i Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, rydym yn cydnabod mai mân newid drafftio yw hwn sy'n anorfod o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

29 Ionawr 2019





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	21 Ionawr 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- Penderfyniad y Comisiwn 93/352 sy'n rhanddirymu rhai o'r amodau ar gyfer cymeradwyo safleoedd arolygu ar y ffin mewn porthladdoedd lle y caiff pysgod eu glanio;
- Penderfyniad y Comisiwn 94/360/EC ar gynnal archwiliadau corfforol yn llai aml ar lwythi o gynhyrchion penodol o drydydd gwledydd;
- Penderfyniad y Comisiwn 1997/152/EC ynglŷn â'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y ffeil gyfrifiadurol o lwythi o anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid sy'n dod o drydydd gwledydd ac sy'n cael eu hanfon ymlaen;
- Penderfyniad y Comisiwn 1997/794/EC sy'n pennu rheolau manwl penodol ar gyfer cymhwyso Cyfarwydeb y Cyngor 91/496/EEC ar archwiliadau gan filfeddygon ar anifeiliaid byw i'w mewnforio o drydydd gwledydd;
- Penderfyniad y Comisiwn 2000/571/EC sy'n pennu'r dulliau i'w defnyddio wrth gynnal archwiliadau milfeddygol ar gynhyrchion o drydydd gwledydd y bwriedir eu cyflwyno i barthau rhydd, warysau rhydd, warysau'r tollau neu weithredwyr sy'n cyflenwi ffyrdd trawsffiniol o gludo ar y môr;
- Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC sy'n pennu'r amodau o ran iechyd anifeiliad ac iechyd cyhoeddus a'r amodau milfeddygol ar gyfer rhoi tystysgrifau i fewnforio paratodau cig i'r Gymuned o drydydd gwledydd;
- Penderfyniad y Comisiwn 2001/812/EC sy'n pennu'r gofynion ar gyfer cymeradwyo safleoedd arolygu ar ffiniau sy'n gyfrifol am archwiliadau milfeddygol ar gynhyrchion sy'n dod i mewn i'r Gymuned o drydydd gwledydd;
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/459/EC ar fesurau diogelu penodol mewn perthynas â firws brech y mwncïod;

- Penderfyniad y Comisiwn 2003/467/EC sy'n sefydlu'r statws swyddogol heb twbercwlosis, brwselosis a lewcosis ensöotig buchol sydd gan Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau Aelod-wladwriaethau penodol mewn perthynas â buchesi;
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/779/EC sy'n pennu'r gofynion o ran iechyd anifeiliaid ac ardystio milfeddygol sy'n gysylltiedig â mewnfurio casinau anifeiliaid o drydydd gwledydd ;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 136/2004 sy'n pennu'r gweithdrefnau ar gyfer archwiliadau milfeddygol a gynhelir ar safleoedd arolygu ar ffiniau'r Gymuned ar gynhyrchion sy'n cael eu mewnfurio o drydydd gwledydd;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2004 sy'n cyflwyno dogfen ar gyfer datgan bod anifeiliaid o drydydd gwledydd yn dod i mewn i'r Gymuned a bod archwiliadau milfeddygol wedi eu cynnal arnynt;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2005/1739/EC sy'n pennu'r gofynion o ran iechyd anifeiliaid ar gyfer symud anifeiliaid syrcas rhwng Aelod-wladwriaethau;
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/168/EC sy'n sefydlu'r gofynion o ran iechyd anifeiliaid a thystysgrifau milfeddygol ar gyfer mewnfurio embryonau anifeiliaid o rywogaeth y fuwch i'r Gymuned;
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/605/EC ar fesurau diogelu penodol mewn perthynas â masnach o fewn y Gymuned mewn dofednod y bwriedir eu defnyddio i ailstocio cyflenwadau o anifeiliaid hela gwyllt;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/25/EC ar fesurau diogelu penodol mewn perthynas â ffliw adar pathogenig iawn a symud adar anwes sy'n teithio gyda'u perchenogion i mewn i'r Gymuned;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/240/EC sy'n pennu tystysgrifau milfeddygol newydd ar gyfer mewnfurio i'r Gymuned anifeiliaid byw, semen, embryonau, ofa a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynglŷn â rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion y mae'n rhaid arfer mesurau rheoli arnynt ar safleoedd arolygu ar ffiniau;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC sy'n pennu'r amodau o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus, a thystysgrifau enghreifftiol ar gyfer mewnfurio o drydydd gwledydd gynhyrchion cig penodol a stumogau, pledrenni a pherfedd wedi'u trin y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl;
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/185/EC ar warantiadau ychwanegol yn ymwneud â chlefyd Aujeszky mewn perthynas â masnach o fewn y Gymuned mewn moch, a meini prawf ar gyfer darparu gwybodaeth am y clefyd hwn;
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/636/EC sy'n sefydlu'r rhestr o drydydd gwledydd o le y mae Aelod-wladwriaethau yn awdurdodi mewnfurio ofa ac embryonau anifeiliaid o rywogaeth y mochyn;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 798/2008 sy'n pennu rhestr o drydydd gwledydd, tiriogaethau, parthau neu gompartmentau o le y caniateir i ddofednod a chynhyrchion dofednod gael eu mewnfurio i'r Gymuned a theithio drwyddi, a'r gofynion o ran tystysgrifau milfeddygol;
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 1251/2008 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC mewn perthynas ag amodau a gofynion ardystio ar gyfer rhoi ar y farchnad a mewnfurio i'r Gymuned anifeiliaid dyframaeth a'u cynhyrchion, ac sy'n pennu rhestr o rywogaethau sy'n fectorau;

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 119/2009 sy'n pennu rhestr o drydydd gwledydd, neu rannau ohonynt, o le y caniateir mewnfurio i'r Gymuned, neu ganiatáu iddo deithio drwy'r Gymuned, gig anifeiliaid gwyllt o rywogaeth y gwningen nau'r ysgyfarnog, cig anifeiliaid tir gwyllt penodol a chig cwningod sy'n cael eu ffermio, a'r gofynion o ran tystysgrifau milfeddygol;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 206/2009 ar ddod â llwythi personol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i mewn i'r Gymuned;
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/712/EC sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC ynglŷn â thudalennu gwybodaeth ar y rhynggrwyd sy'n cynnwys rhestrau o sefydliadau a labordai a gymeradwywyd gan Aelod-wladwriaethau yn unol â deddfwriaeth filfeddygol a sootchnegol y Gymuned;
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/821/EC sy'n llunio rhestr o safleoedd arolygu cymeradwy ar ffiniau, sy'n pennu rheolau penodol ar gyfer yr arolygiadau a gynhelir gan arbenigwyr milfeddygol y Comisiwn ac sy'n pennu'r unedau milfeddygol yn TRACES;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010 sy'n pennu rhestrau o drydydd gwledydd, tiriogaethau neu rannau ohonynt sydd wedi eu hawdurdodi i anfon anifeiliaid a chig ffres penodol i'r Undeb Ewropeaidd, ac sy'n pennu'r gofynion o ran tystysgrifau milfeddygol;
- Penderfyniad y Comisiwn 2010/470/EC sy'n pennu tystysgrifau iechyd enghreifftiol ar gyfer masnach o fewn yr Undeb mewn semen, ofa ac embryonau anifeiliaid o rywogaethau'r ceffyl, y ddafad a'r afr ac mewn ofa ac embryonau anifeiliaid o rywogaeth y mochyn;
- Penderfyniad y Comisiwn 2010/472/EC ar fewnfurio semen, ofa ac embryonau anifeiliaid o rywogaethau'r ddafad a'r afr;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) No 605/2010 sy'n pennu'r amodau o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus ac o ran tystysgrifau milfeddygol ar gyfer cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd laeth amrwd, cynhyrchion llaeth, colostrwm a chynhyrchion sy'n seiliedig ar golostrwm y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl;
- Penderfyniad y Comisiwn 2011/163/EC ar gymeradwyo cynlluniau a gyflwynir gan drydydd gwledydd;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2011/215/EU sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC mewn perthynas â thrawslwytho ar y safle arolygu ar y ffin neu gyflwyno llwythi o gynhyrchion y bwriedir eu mewnfurio i'r Undeb neu a fwriedir ar gyfer trydydd gwledydd;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2011/630/EU ar fewnfurio semen anifeiliaid domestig o rywogaeth y fuwch i'r Undeb;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 28/2012 sy'n pennu'r gofynion o ran tystysgrifau ar gyfer mewnfurio cynhyrchion cyfansawdd penodol i'r Undeb a chaniatáu iddynt deithio drwyddo;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2012/137/EU ar fewnfurio i'r Undeb semen anifeiliaid domestig o rywogaeth y mochyn;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 139/2013 sy'n pennu amodau o ran iechyd anifeiliaid ar gyfer mewnfurio adar penodol i'r Undeb, a'r amodau cwarantîn sy'n gysylltiedig â hynny;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2013/519 ynglŷn â'r rhestr o diriogaethau neu drydydd gwledydd o le yr awdurdodir mewnfurio cŵn, cathod a ffuredau yn unol â Chyfarwyddeb 92/65/EEC; Tudalen y pecyn 79

- Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes at ddibenion nad ydynt yn fasnachol;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn Rhif 577/2013 ar y dogfennau adnabod enghreifftiol ar gyfer symud cŵn, cathod a ffuredau at ddibenion nad ydynt yn fasnachol, ar sefydlu rhestrau o diriogaethau a thrydydd gwledydd, ac ar y gofynion o ran fformat, cynllun ac iaith ar gyfer datganiadau sy'n ardystio y cydymffurfiwyd ag amodau penodol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad (EU) Rhif 576/2013;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 743/2013 sy'n cyflwyno mesurau diogelu mewn perthynas â mewnforio o Dwrci folysgiaid dwyragennog y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2013/764/EU ynglŷn â mesurau rheoli iechyd anifeiliaid mewn perthynas â chlwy clasurol y moch mewn Aelod-wladwriaethau penodol;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 636/2014 ar dystysgrif enghreifftiol ar gyfer masnachu anifeiliaid hela gwyllt mawr heb eu blingo;
- Penderfyniad y Comisiwn 2015/1901/EU sy'n pennu rheolau ardystio a thystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer mewnforio i'r Undeb lwythi o anifeiliaid gwyllt a chynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/320 ar fesurau penodol yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid mewn perthynas â'r ffwngws *Batrachochytrium salamandrivorans* ar gyfer masnach o fewn yr Undeb mewn salamandrau ac ar ddod ag anifeiliaid o'r fath i mewn i'r Undeb;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/659 ar yr amodau ar gyfer dod ag equidae byw a'u semen, ofa ac embryonau i mewn i'r Undeb;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/772 sy'n ategu Rheoliad (EC) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â mesurau iechyd ataliol ar gyfer rheoli haint *Echinococcus multilocularis* mewn cŵn;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 88/407/EEC sy'n pennu'r gofynion o ran iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fasnachu semen anifeiliaid domestig o rywogaeth y fuwch o fewn y Gymuned a'i fewnforio;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 89/556/EEC ar amodau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid ar gyfer masnachu embryonau anifeiliaid domestig o rywogaeth y fuwch o fewn y Gymuned a'u mewnforio o drydydd gwledydd;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 90/439/EEC sy'n pennu gofynion o ran iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fasnachu semen anifeiliaid domestig o rywogaeth y mochyn o fewn y Gymuned a'i fewnforio;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 92/65/EEC sy'n pennu gofynion o ran iechyd anifeiliaid mewn perthynas â masnachu anifeiliaid, semen, ofa ac embryonau o fewn y Gymuned a'u mewnforio;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC sy'n pennu'r rheolau iechyd anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 2004/68/EC sy'n pennu'r rheolau iechyd anifeiliaid ar gyfer mewnforio carnolion byw penodol i'r Gymuned a chaniatáu iddynt deithio ar draws y Gymuned;

- Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau penodol ar gyfer trefnu mesurau rheoli swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/156/EC ar amodau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid ar gyfer symud equidae a'u mewnfario o drydydd gwledydd;
- Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC ar amodau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid ar gyfer masnachu dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned a'u mewnfario o drydydd gwledydd.

Dirymir y darpariaethau a ganlyn mewn deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir:

- Penderfyniad y Comisiwn 93/444/EC ar reolau manwl ar gyfer masnach o fewn y Gymuned mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion penodol y bwriedir eu hallforio i drydydd gwledydd.
- Penderfyniad y Comisiwn 1995/410/EC sy'n pennu'r rheolau ar gyfer cynnal profion microbiolegol drwy samplu yn y sefydliad o le y daw dofednod, y'u bwriedir ar gyfer y Ffindir a Sweden, i'w lladd.
- Penderfyniad y Comisiwn 2004/292/EC ar gyflwyno system TRACES.
- Penderfyniad y Comisiwn Penderfyniad y Comisiwn 2006/146/EC ar fesurau diogelu penodol mewn perthynas ag ystlumod ffrwythau, cŵn a chathod sy'n dod o (Benrhyn) Malaysia ac Awstralia.
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/65/EC ar fesurau diogelu penodol mewn perthynas â masnach o fewn y Gymuned mewn dofednod y bwriedir eu defnyddio i ailstocio cyflenwadau o adar hela gwyllt.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2013/503/EU sy'n cydnabod bod rhannau o'r Undeb yn rhydd o varroosis mewn gwenyn ac sy'n sefydlu'r gwarantiadau ychwanegol sy'n ofynnol wrth fasnachu gwenyn o fewn y Gymuned ac wrth eu mewnfario er mwyn diogelu'r statws rhydd o varroosis sydd gan y rhannau hynny.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/878 sy'n mabwysiadu'r rhestr o Aelod-wladwriaethau, neu rannau o diriogaeth Aelod-wladwriaethau, sy'n cydymffurfio â'r rheolau categoreiddio a bennir yn Erthygl 2(2) a (3) o Reoliad Dirprwyedig (EU) 2018/772 mewn perthynas â mesurau iechyd ataliol er mwyn rheoli haint *Echinococcus multilocularis* mewn cŵn.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Gwneir y diwygiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hwy ac mae testun y ddeddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud cywiriadau a fydd yn caniatâu i ddeddfwriaeth genedlaethol a domestig gael ei gweithredu unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE drwy newid cyfeiriadau lle y bo angen, er enghraifft, rhoi "United Kingdom" yn lle "community" a rhoi "as published by the appropriate authority from time to time" yn lle "drawn up in

accordance with the model as set out in Part 1 of the Annex” a thrwy roi cyfeiriadau priodol at gyfraith yr UE sy'n cael ei dargadw, gan ddefnyddio pwerau o dan y Ddeddf Ymadael. Nid yw'r offeryn yn newid polisi mewn unrhyw fodd

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/D4Zg4HGP>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**78 - Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion
Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gosodwyd yn Senedd y DU: 17 Ionawr 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh.
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	21/01/2019
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh.
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 12
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Ddim yn ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh.
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i gyfres o Reoliadau a Phenderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â mewnforio a chludo anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, plasm cenhedlu a symud anifeiliaid anwes, ceffylau ac anifeiliaid syrcas.

Pwrpas y Rheoliadau yw mynd i'r afael â methiannau deddfwriaeth ddomestig a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r Rheoliadau yn diwygio cyfeiriadau diangen at ddeddfau a systemau'r UE a fydd yn amherthnasol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac maent yn dirymu deddfau diangen yr UE ac yn

trosglwyddo cyfres o swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r "awdurdod priodol" yn y DU, sy'n golygu, mewn perthynas â Chymru, Weinidogion Cymru neu (gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru) yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Rheoliadau'n gymwys ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â mewnfario, symud a masnachu anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer awdurdodi busnesau, dogfennau teithio anifeiliaid anwes, tystysgrifau iechyd anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus ac amodau cludiant. Mae'r Rheoliadau hefyd yn galluogi awdurdodau yn y DU i gymryd camau mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio neu achosion o glefydau.

Dim ond os bydd senario 'dim bargaen' y bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn dod i rym.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 21 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae'r Rheoliadau pwnc, yn Atodlen 2, yn dirymu "Commission Decision 2006/65/EC on certain protection measures in relation to intra-Community trade in poultry intended for restocking of wild game supplies". Mae'n ymddangos bod cyfeirnod Penderfyniad y Comisiwn fel y'i nodir yn cynnwys gwall, ac y dylai ddarllen "2006/605 / EC".

Mae'r datganiad gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at y cyfeirnod anghywir yn ei restr o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n cael ei dirymu, ond mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad dyblyg at Benderfyniad y Comisiwn hwn (gyda'r cyfeirnod cywir) yn yr adran o'r enw "Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys".

2. Mae'r datganiad yn cadarnhau bod y diwygiadau yn y Rheoliadau hyn i gael eu gwneud "gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hwy ac mae testun y deddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol."

Fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn nodi'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru neu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30C.3(ii). Mae cynghorwyr cyfreithiol yn argymhell y dylid ceisio eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 21 Ionawer 2019 ba effaith y gall y Rheoliadau ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	22 Ionawr 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

Nid yw Rheoliadau 2019 yn diwygio unrhyw offerynnau Ewropeaidd sy'n uniongyrchol gymwys.

Yn lle hynny, mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hynny yn darparu ar gyfer pwerau i ddiwygio Atodiadau 1A a 3 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1251/2008 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 3/88/EC mewn perthynas ag amodau a gofynion ardystio ar gyfer rhoi ar y farchnad a mewnfario i'r Gymuned anifeiliaid dyframaeth a'u cynhyrchion, ac sy'n pennu rhestr o rywogaethau sy'n fectorau. Mae'r pŵer i ddiwygio Atodiad 1A yn arferadwy pan fo'r diwygiad yn angenrheidiol neu'n briodol yng ngoleuni meini prawf penodedig penodol ac unrhyw asesiad a gynhelir sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw clefyd yn glefyd egsotig ai peidio at ddiben yr Atodiad hwnnw (a rhaid i unrhyw asesiad y dibynnir arno at y diben hwnnw fod wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig). Mae'r pŵer i ddiwygio Atodiad 3 yn arferadwy pan fo'r diwygiad yn angenrheidiol neu'n briodol yng ngoleuni asesiad o'r risgiau i iechyd anifeiliaid dyfrol yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â chyflwyno anifeiliaid neu gynhyrchion dyframaeth a fegir neu a gynhyrchir mewn trydedd wlad (h.y. gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig), gan ystyried ffactorau penodedig penodol. Mae'r pwerau o dan sylw yn cael eu rhoi yn gydredol, felly maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol (ond rhaid iddo ef gael caniatâd Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau hynny).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hynny yn darparu pŵer i ddiwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ymadael â'r UE) 2019. Ymdriniwyd â hwy mewn datganiad hysbysu blaenorol. Mae Rhan 3 yn rhoi'r gallu i wneud, drwy gyfrwng Rheoliadau, y diwygiadau a ganlyn i Reoliadau Iechyd Tudalen y pecyn 86

Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019@ diwygiadau i Atodlenni 1 – 7 (plâu planhigion a deunydd planhigion a reoleiddir) yng ngoleuni datblygiadau mewn gwybodaeth wyddonol neu dechnegol neu lle gellir eu cyfiawnhau'n dechnegol neu lle bônt yn gyson â'r risg i iechyd planhigion; diwygiadau i Atodlen 8 (rhanddirymiadau rhag gwaharddiadau a gofynion penodol) ar ôl i asesiad ystyried yr wybodaeth wyddonol a thechnegol sydd ar gael a chadarnhau y byddai'r diwygiadau'n dileu'r risg i iechyd planhigion neu'n diogelu rhagddi; diwygiadau i gydnabod pan fo trydydd gwledydd yn dangos bod ganddynt fesurau ffytoiechydol mewn perthynas â phlâu planhigion neu ddeunydd perthnasol sy'n gyfwerth â mesurau ffytoiechydol domestig, a diwygiadau er mwyn gwneud darpariaeth frys dros dro er mwyn atal pla planhigion rhag cael ei gyflwyno.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Gallai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, y gallai hynny gyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau yn y DU sy'n gyfwerth ag amryfal swyddogaethau deddfwriaethol sy'n arferadwy gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE ar iechyd anifeiliaid dyfrol ac iechyd planhigion ac maent yn trosi gweithdrefnau'r UE yn weithdrefnau priodol y DU fel sy'n briodol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/AcjQdNDh>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**79 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion
(Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gosodwyd yn Senedd y DU: 17 Ionawr 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh.
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	21/01/2019
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh.
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 14
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Ddim yn ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh.
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 (1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer nifer o swyddogaethau deddfwriaethol a roddir ar hyn o bryd gan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (ym meysydd iechyd anifeiliaid dyfrol ac iechyd planhigion) i'w harfer yn lle hynny gan awdurdodau cyhoeddus (i gynnwys Gweinidogion Cymru) yn y Deyrnas Unedig fel y gellir eu harfer ar lefel genedlaethol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 22 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	24 Ionawr 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 18 Rhagfyr 2006 ynglŷn â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion (REACH);
- Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Rhagfyr 2008 ar gategoreiddio, labelu a phacio sylweddau a chymysgeddau;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 544/2011 dyddiedig 10 Ebrill 2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y gofynion data ar gyfer sylweddau actif;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 545/2011 dyddiedig 10 Ebrill 2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y gofynion data ar gyfer cynhyrchion diogelu planhigion;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 547/2011 dyddiedig 8 Mehefin 2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion diogelu planhigion;
- Rheoliad (UE) Rhif 528/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 22 Mai 2012 ar roi cynhyrchion bioleiddiadol ar gael ar y farchnad a'u defnyddio;
- Rheoliad (EU) Rhif 649/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 4 Gorffennaf ar allforio a mewnfario cemegion peryglus;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 283/2013 dyddiedig 1 Mawrth 2013 sy'n nodi'r gofynion data ar gyfer sylweddau actif, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad;
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 284/2013 dyddiedig 1 Mawrth 2013 sy'n nodi'r gofynion data ar gyfer cynhyrchion diogelu planhigion, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad;

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 354/2013 dyddiedig 18 Ebrill 2013 ar newidiadau o ran cynhyrchion bioleiddiadol a awdurdodwyd yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 528/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 414/2013 dyddiedig 6 Mai 2013 sy'n pennu gweithdrefn ar gyfer awdurdodi'r cynhyrchion bioleiddiadol hynny yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 528/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) Rhif 88/2014 dyddiedig 31 Ionawr 2014 sy'n pennu gweithdrefn ar gyfer diwygio Atodiad I i Rheoliad (EU) Rhif 528/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi cynhyrchion bioleiddiadol ar gael ar y farchnad a'u defnyddio;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 1062/2014 dyddiedig 4 Awst 2014 ar y rhaglen waith ar gyfer archwilio mewn ffordd systematig yr holl sylweddau actif sydd mewn cynhyrchion bioleiddiadol ar hyn o bryd ac y cyfeirir atynt yn Rheoliad (EU) Rhif 528/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

Deddfwriaeth annomestig arall

- Rhan 2 o Atodiad II i'r cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Is-ddeddfwriaeth sydd i'w chywiro

- Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998;
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd 2002;
- Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002;
- Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Ffioedd a Thaliadau) 2011;
- Rheoliadau Cemegion a Chynhyrchion Bioleiddiadol (Penodi Awdurdodau a Gorfodi) 2013;
- Rheoliadau Cemegion a Chynhyrchion Bioleiddiadol (Penodi Awdurdodau a Gorfodi) (Gogledd Iwerddon) 2013;
- Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) 2014;
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015;
- Rheoliadau Ffrwydron (Penodi Awdurdodau a Gorfodi) (Gogledd Iwerddon) 2015;
- Rheoliadau Cynhyrchion (Ffioedd a Thaliadau) 2015;
- Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Ffioedd a Thaliadau) (Gogledd Iwerddon) 2015;
- Rheoliadau lechyd a Diogelwch a Niwclear (Ffioedd) 2016.

Mae'r darnau a ganlyn o gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn cael eu diddymu—

Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 440/2010 dyddiedig 21 Mai 2010 ar y ffioedd a'r taliadau sy'n daladwy i'r Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gategoreiddio, labelu a phacio sylweddau a chymysgeddau.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae cyfundrefn Gemegion y DU yn cwmpasu materion sydd wedi'u datganoli a materion a gadwyd yn ôl, oherwydd bwriedir Tudalen 10 yn ymuno â diogelwch gweithwyr (mater sydd

wedi'i chadw'n ôl yng Nghymru a'r Alban) yn ogystal ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd (materion sydd wedi'u datganoli). Mae rheolaeth ar fewnforio ac allforio cemegion heblaw gwrteithiau a phlaladdwyr hefyd yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl, ac felly hefyd gynnal profion ar anifeiliaid at ddibenion gwyddonol.

Mae darpariaeth yn yr OS hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru. Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w harfer yn gydredol â chydsyniad Gweinidogion Cymru yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, bod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig, neu a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol ond sy'n arferadwy gyda chydsyniad yr Awdurdodau Datganoledig yn unig mewn perthynas â thiriogaethau datganoledig, yn swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unig yn swyddogaethau awdurdod cyhoeddus heblaw am Awdurdod Cymreig datganoledig at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, bod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud yr addasiadau sydd eu hangen er mwyn parhau i gymhwyso'r rheolau presennol a nodir mewn cyfraith ar ôl i'r DU Ymadael â'r UE. Maent yn arbennig o bwysig er mwyn hwyluso cadwyni cyflenwi cemegion, sy'n hollbwysig ym maes gweithgynhyrchu ac mewn diwydiannau sy'n defnyddio cemegion, oherwydd eu bod yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn mewnforio sylweddau a chymysgeddau cemegol i'r DU, cyn eu gweithgynhyrchu neu cyn eu rhoi ar y farchnad.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/XnzRsY2j>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**80 - Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r
UE) 2019**

Gosodwyd yn Senedd y DU: 21 Ionawr 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh.
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	21/01/2019
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh.
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 16
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Ddim yn ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh.
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraffau 1 a 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Gwneir yr offeryn hwn gan ddefnyddio pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") er mwyn mynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â chemegau a deddfwriaeth organeddau a addaswyd yn enetig (GMO) sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r offeryn hwn yn sicrhau y bydd rheoliadau cemegau a GMO y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol o'r diwrnod y bydd y DU yn

ymadael â'r UE ("Ymadael"). Nid yw'r offeryn hwn yn gwneud unrhyw newidiadau polisi y tu hwnt i'r bwriad o sicrhau gweithredoldeb parhaus y ddeddfwriaeth berthnasol.

Fel Rheoliadau Ewropeaidd sy'n gymwys yn uniongyrchol, heb angen i'w trosi i gyfraith y DU, caiff y Rheoliadau BPR, CLP a PIC eu dargadw o dan y trefniadau a gynigir yn Adran 3(1) o'r Ddeddf Ymadael. Mae'r offeryn yn gwneud cywiriadau i'r Rheoliadau hyn gan ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Ymadael.

Oherwydd diwygiadau i'r Rheoliadau CLP a wneir yn yr offeryn hwn, mae diwygiadau i'w gwneud i ddeddfwriaeth islaw, h.y. deddfwriaeth sydd 'islaw' y Rheoliad CLP, ond sy'n dibynnu ar ddsbarthiad perygl, yn llwyr neu'n rhannol, i ddiffinio'r cwmpas a fwriadwyd ac i weithredu fel 'sbardun' ar gyfer mesurau rheoli risg ychwanegol. Mae hyn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth islaw yn parhau i ddarparu'r cyfeiriadau priodol ac angenrheidiol at y Rheoliadau CLP a (lle bo angen) at restr dosbarthu a labelu gorfodol y DU y mae'r Rheoliadau CLP diwygiedig yn darparu ar eu cyfer.

Mae'r offeryn hwn hefyd yn diwygio rheoliadau perthnasol i fynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE i ganiatáu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch orfodi darpariaethau ac i adennill costau ar gyfer ei waith.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 24 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

- Mae'r datganiad yn cyfeirio at yr is-ddeddfwriaeth a ganlyn ar gyfer ei chywiro: Rheoliadau Cynhyrchion a Chemegau Bioleiddiadol (Pennu Awdurdodau a Gorfodaeth) (Gogledd Iwerddon) 2013; Rheoliadau Ffrwydrion (Pennu Awdurdodau a Gorfodaeth) (Gogledd Iwerddon) 2015; Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Ffioedd a Thaliadau) (Gogledd Iwerddon) 2015; a Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Gogledd Iwerddon) 2015. Fodd bynnag, mae paragraff 4.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yr offerynnau hyn "...apply to Northern Ireland only...".

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

